# Cyfathrebu gyda Rhanddeiliaid

Mae'r deunyddiau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi meddwl mewn ysgolion am sut i ddeall cynnydd yn eu cyd-destun eu hunain a thu hwnt. Gallant hefyd ddarparu fframwaith ddefnyddiol i gefnogi clystyrau o ysgolion i ddatblygu eu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd. Dylid ystyried syniadau ynghylch cynnydd fel rhan o'r broses o ddylunio a gwerthuso'r cwricwlwm, yn hytrach nag fel elfen ar wahân. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd ystyried sut y gall fod angen newid diwylliant a meddylfryd i gefnogi gwireddu Cwricwlwm i Gymru o fewn ysgol neu glwstwr.

### Canllawiau cwricwlwm allweddol ar gynnydd

Mae Canllawiau allweddol Cwricwlwm i Gymru ar gynnydd i'w gweld yma:

Cwricwlwm i Gymru - Cod Cynnydd

Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu

Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr

Gwerthuso cynnydd dysgwyr

**Y pum egwyddor trosfwaol ar gyfer cynnydd yw:**

1. Cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr
2. Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth
3. Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad
4. Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
5. Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd

### Cyfathrebu'r cynnydd

Mae'r cwestiynau myfyriol hyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i adolygu, mireinio a datblygu eich meddwl am gynnydd dysgwyr. Mae hwn yn ganllaw yn hytrach na rhestr cynhwysfawr ac efallai y byddwch am ddatblygu eich cwestiynau eich hun wrth i chi weithio trwy'r deunyddiau sydd yma.

1. I ba raddau ydych chi wedi sefydlu dealltwriaeth ar y cyd o sut beth yw cynnydd i ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn eich ysgol? (Gallai hyn gyfeirio at gyflymder cynnydd, meysydd dysgu a phrofiad, sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben, disgyblaethau penodol neu anghenion penodol a nodwyd yn eich lleoliad.)

2. I ba raddau y mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr y tu hwnt i'ch lleoliad ymhlith y rhanddeiliaid yr ydych yn cyfathrebu â nhw? Sut gallech chi gefnogi'r ddealltwriaeth gyffredin hon o ran sut rydych chi'n cyfathrebu â nhw am gynnydd?

3. Pa dystiolaeth o gynnydd dysgwyr ydych chi'n ei chasglu a sut ydych chi'n cyfleu cynnydd i randdeiliaid? I ba raddau y mae'r cyfathrebu hwn yn cefnogi dealltwriaeth rhanddeiliaid o gynnydd dysgwyr ac i ba raddau y mae'n rhoi sicrwydd iddynt fod cynnydd yn digwydd?

4. Ar ôl archwilio'r cwestiynau hyn, beth yw'r ffyrdd y gallai cyfathrebu â rhanddeiliaid am gynnydd dysgwyr wella ymhellach? Pa gamau ymarferol allech chi eu cymryd i wneud hyn?